*D. Ben Rees*

## Caru ein Gilydd

Wrth garu ein gilydd y dygwn fwyaf o ogoniant i Ben yr Eglwys. Mae y pen yn dioddef pan mae yr aelodau yn ymryson â'i gilydd. Tywysog Tangnefedd yw ein pen, dilynwyr tangnefedd y dylai yr aelodau fod. Mae y pen ei hun yn anweledig i'r byd, ac wrth nodweddiad yr aelodau y maent hwy yn barnu ei gymeriad ef. Mae cymeriad yr ysgolheigion yn dweud yn uchel dros neu yn erbyn yr athraw. Wrth Undeb yr Eglwys y mae y byd i gael gwybod fod Crist yn anfonedig y Tad. Nyni ydyw ei gynrychiolwyr ar y ddaear.

Dyfyniad o bregeth y Parchedig Ddr Thomas Rees, Abertawe ar eiriau o Efengyl Ioan, pennod 13, adnodau 34 a 35:

'Gorchymyn newydd yr wyf yn ei roddi i chwi, ar garu o honnoch eich gilydd; fel y cerais i chwi, ar garu o honnoch chwithau bawb eich gilydd. Wrth hyn y gwybydd pawb mai disgyblion i mi ydych, os bydd gennych gariad i'ch gilydd'.

***Gweler John Thomas, Liverpool, Cofiant y Parch. T. Rees, DD***

## Gweddi ar y Grawys

Arglwydd Iesu, y Bugail da, dewisaist wacter llym yr anialwch a'r unigrwydd llethol sydd yn y fangre honno, ac yn arbennig yr her i wynebu ar demtasiynau mawr bywyd. Diolch O! Iesu, am i ti lwyddo i oresgyn y temtasiynau hyn a chyhoeddi i ni heddiw wirioneddau yr ydym yn eu trysori.

Nid ar fara yn unig y bydd dyn fyw, gan ei fod yn dibynnu arnat Ti, Gynhaliwr y Cynhaeaf. Nid da yw grym heb egwyddor ac nid da yw rhoi Duw ar ei brawf.

Cynorthwya ninnau, weiniaid o ran y Ffydd ond awyddus o ran ein dyheadau, i ddianc o afael secwlariaeth sy'n dinistrio cymuned ac unigolion, a hefyd i gadw draw oddi wrth hud materoliaeth ddifaol, a gwagio'n calonnau a'n meddyliau a'n dwylo er mwyn dysgu yn well sut mae rhodio'n gywir ar lwybrau bywyd a derbyn yn ddiolchgar o'th ddarpariaeth yn yr Efengyl. Amen.